Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Safle Tirlenwi Withyhedge – Diweddariad Tachwedd 2024

## Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth gyfoes am ailgychwyn gweithgareddau gwaredu gwastraff gan y gweithredwr tirlenwi Resources Management UK Ltd (RML). Mae'n cynnwys manylion am y camau y bydd aelodau'r Grwp Rheoli Digwyddiad (yr IMG) yn eu cymryd yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod, mewn ymateb i'r newidiadau yn y safle tirlenwi. Y partneriaid yn yr IMG yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Gyngor Sir Penfro, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae angen cadarnhad terfynol ar rai manylion, a gallai hyn arwain at fân newidiadau i'r wybodaeth a nodir isod. Mae hyn oherwydd bod sefyllfa safle tirlenwi Withyhedge yn un ddeinamig. Ond roedd yr IMG yn awyddus i rannu cymaint o wybodaeth â phosibl a rhoi cyfle am ddeialog agored.

## Sesiwn galw heibio Safle Tirlenwi Withyhedge

Fe'ch anogir i ddarllen y wybodaeth hon cyn mynychu'r sesiwn galw heibio y mae'r IMG yn ei chynnal yn Neuadd Eglwys Spittal rhwng 3 a 7pm ddydd Iau 5 Rhagfyr 2024. Bydd cynrychiolwyr o bob partner sydd yn yr IMG yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau neu i ddarparu eglurder.

Mae mwy o wybodaeth am y sesiwn galw heibio ar gael yma.

Mae ffocws y ddogfen hon - a'r sesiwn galw heibio ar 5 Rhagfyr - ar weithrediadau yn y safle tirlenwi yn y dyfodol, ac aelodau'r IMG.

Mae'r IMG yn gwahodd unrhyw un sydd â chwestiynau i fynychu'r sesiwn galw heibio. Fodd bynnag, ni fydd ymddygiad ymosodol neu fygythiol yn cael ei oddef. Os bydd ymddygiad o'r fath yn digwydd, bydd y digwyddiad yn dod i ben ar unwaith er budd diogelwch y cyhoedd.

I'r rhai sydd â chwestiynau ond nad ydynt yn gallu dod i'r sesiwn galw heibio, e-bostiwch ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffoniwch 0300 065 3000.

## Trosolwg

Ddiwedd mis Hydref 2023 dechreuodd CNC, y rheoleiddiwr amgylcheddol yng Nghymru, dderbyn cynnydd yn nifer y cwynion am arogleuon gwael o Safle Tirlenwi Withyhedge. Rhwng mis Hydref 2023 a mis Gorffennaf 2024, daeth yr adroddiadau yn gyson - gyda'r niferoedd yn sylweddol. Derbyniwyd adroddiadau gan Gyngor Sir Penfro hefyd.

Roedd yr arogleuon yn gysylltiedig i raddau helaeth ag allyriadau nwyon tirlenwi o'r safle. Mae'r safle tirlenwi yn cael ei weithredu gan Resources Management UK Ltd (RML) ac mae wedi'i awdurdodi gan Drwydded Amgylcheddol (rhif trwydded EPR/MP3330WP).

Ers dechrau 2024, mae RML wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag allyriadau sy'n ffoi o'r safle. Roedd rhan fawr o'r gwaith hwn yn ofynnol o dan Hysbysiadau Gorfodi Rheoliad 36 a roddwyd i RML gan CNC o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (sef EPR).

Daeth RML â gweithgareddau gwaredu gwastraff i ben yn wirfoddol yng nghanol mis Mai 2024, gan ganiatáu i'r holl wastraff sy'n weddill ar y safle gael ei gapio ac i seilwaith casglu nwy gael ei osod yn yr ardaloedd hynny sy'n weddill. Yn ogystal, rhwng Mehefin a Medi 2024 gwnaeth RML welliannau sylweddol i'r system rheoli nwy tirlenwi. Ers mis Awst 2024, mae CNC wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer yr adroddiadau aroglau a dderbyniwyd.

Yn dilyn adeiladu cell newydd, mae RML wedi hysbysu CNC eu bod yn bwriadu ailddechrau gweithgareddau gwaredu gwastraff yn fuan. Cydnabyddir y gallai hyn fod yn achos pryder ymhlith aelodau o'r gymuned yr effeithiwyd arnynt yn flaenorol.

## Beth am ddigwyddiadau blaenorol yn y safle tirlenwi?

Mae'r ymchwiliad yn parhau ac ni ellir rhannu unrhyw wybodaeth bellach am yr ymchwiliad hwn ar hyn o bryd.

Gellir dod o hyd i hanes llawn gweithgareddau sy'n ymwneud â Safle Tirlenwi Withyhedge ers diwedd 2023 yma.

## Beth yw'r diweddaraf am y cais i amrywio trwyddedau?

Rydym ni (CNC) wedi cael cais i amrywio trwydded oddi wrth RML mewn perthynas â safle tirlenwi Withyhedge - daeth y cais i law tua diwedd mis Mai 2024 Gall y cais hwn fod yn destun newid yn ystod y broses asesu ac, yn dibynnu ar sawl ffactor gan gynnwys ansawdd y wybodaeth a gyflwynwyd, dylid penderfynu yn ei gylch yn gynnar yn 2025 - a hynny gan ein tîm Caniatáu Gosodiadau.

Mae'r cais amrywio yn cynnwys diwygiadau arfaethedig i lefelau adfer (uchderau a phroffil y safle tirlenwi) ac addasiadau i raglenni monitro ar gyfer dŵr daear, dŵr wyneb a thrwytholch. Nid yw'r cais yn ceisio ychwanegu mathau o wastraff ychwanegol at y rhai a restrir i'w gwaredu yn y safle tirlenwi.

Oherwydd lefel y diddordeb yn Withyhedge ymhlith y cyhoedd, mae CNC wedi ymrwymo i ymgynghori â'r cyhoedd fel rhan o'r broses benderfynu ar gyfer unrhyw gais am drwydded sy'n ymwneud â'r Safle Tirlenwi neu'r Orsaf Drosglwyddo Gwastraff.

# Ailgychwyn gwaredu gwastraff

## Rolau a Chyfrifoldebau

Y gweithredwr, sef RML, sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Drwydded Amgylcheddol yn Safle Tirlenwi Withyhedge. Mae hyn yn cynnwys amodau'r drwydded sy'n ymwneud ag arogleuon oddi ar y safle.

Rôl CNC yw cynnal gweithgareddau asesu cydymffurfiaeth i benderfynu a yw RML yn cydymffurfio â'u trwydded, a chymryd camau rheoleiddio priodol os nad oes cydymffurfiaeth. Mae cydymffurfio â'r drwydded yn cynnwys cadw at ofynion dogfennau sy'n cefnogi ac yn eistedd ochr yn ochr â'r drwydded - er enghraifft, technegau gweithredu a chynlluniau rheoli.

**Nodwch:** Mae'r wybodaeth a rennir yn yr adran hon isod yn seiliedig ar yr hyn a gafwyd gan RML. Ni all unrhyw un o'r partneriaid yn yr IMG fod yn atebol am newidiadau i'r cynigion a amlinellir gan RML.

## Pryd fydd gweithgareddau gwaredu gwastraff yn ailddechrau?

Mae'r Drwydded Amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr gyflwyno Adroddiad Dilysu Sicrwydd Ansawdd Adeiladu yn dilyn adeiladu unrhyw gell tirlenwi newydd. Ni ellir gwaredu gwastraff mewn unrhyw gell neu is-gell newydd nes bod CNC wedi cadarnhau ei fod yn fodlon â'r adroddiad dilysu hwnnw.

Ar 28$^{t}$ Tachwedd 2024, hysbyswyd RML gan CNC ei fod yn fodlon ag adroddiadau a gyflwynwyd ar gyfer is-gelloedd 9A a 9B. Felly, gallai gweithgareddau gwaredu gwastraff ailddechrau ar unrhyw adeg.

Mae RML wedi nodi dyddiad cychwyn yn yr wythnos sy'n dechrau ar 9 Rhagfyr 2024 - maent o'r farn y byddai hynny'n ddigon o amser i CNC gytuno ar Weithdrefnau Derbyn Gwastraff wedi'u diweddaru. Cafodd CNC fersiwn o'r ddogfen hon ar 26 Tachwedd 2024 ac mae wrthi'n ei hadolygu.

Mae RML wedi datgan y byddant yn darparu diweddariadau ar eu gwefan i gadarnhau manylion am ailgychwyn gwaredu gwastraff cyn i'r gweithgareddau hyn ailddechrau yn safle tirlenwi Withyhedge.

## Sut olwg fydd ar bethau pan fydd y safle'n dechrau derbyn gwastraff eto?

Mae RML wedi hysbysu CNC y bydd yn cymryd sawl wythnos cyn i'r safle ddychwelyd i gapasiti gweithredol llawn, ac i ddechrau dim ond o'r safleoedd ailgylchu y daw gwastraff - safleoedd sy'n rhan o'u grŵp busnes ehangach yng Nghaerdydd. Bydd nifer y danfoniadau gwastraff sy'n dod i mewn i'r safle yn cynyddu'n raddol nes iddo gyrraedd cyfradd uchaf o tua 35 danfoniad y dydd.

Nid oes amod trwydded yn ymwneud â nifer y cerbydau sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle tirlenwi bob dydd. Bydd nifer y symudiadau cerbydau dros gyfnod o flwyddyn yn cael eu pennu gan y tunelli gwastraff blynyddol y caniateir i'r safle tirlenwi ei dderbyn.

## Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i weithrediadau a seilwaith y safle?

Mae'r gweithredwr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith ar y safle ers i RML atal gweithgareddau gwaredu gwastraff yn wirfoddol ym mis Mai 2024. Mae hyn wedi'i ganoli o amgylch y system rheoli nwy, sef y prif fesur rheoli ar gyfer atal allyriadau nwyon tirlenwi o'r safle ac mae'r gwaith a wnaed yn cynnwys:

- Amnewid yn llwyr yr offer fflêr nwy tirlenwi presennol ac offer ategol
- Gosod fflêr nwy tirlenwi ychwanegol

Nododd CNC yr angen am adolygiad o weithdrefnau a chynlluniau sy'n ymwneud â derbyn gwastraff, a rheoli gweithgareddau gwaredu gwastraff - a chyfleu’r angen i RML.

Dylid adolygu cynlluniau a gweithdrefnau rheoli mewn unrhyw gyfleuster a reoleiddir fel mater o drefn. Gall hyn fod am nifer o resymau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newid i weithrediadau, mewn ymateb i ddigwyddiad, neu fel rhan o adolygiad cyfnodol i sicrhau bod y manylion yn gyfredol.

Ar ddechrau mis Tachwedd 2024, derbyniodd CNC ddogfen ddrafft yn amlinellu'r cynnig ar gyfer gweithdrefnau gwastraff wedi'u diweddaru yn y safle tirlenwi. Cadarnhaodd CNC ei fod yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor ond dywedodd fod angen gweithdrefn fanwl sy'n benodol i’r safle. Mae CNC wedi derbyn drafft ac mae'n cael ei adolygu.

Mae'r cynnig yn sôn am safleoedd y grŵp busnes yng Nghaerdydd fel yr unig lefydd y bydd gwastraff yn cael ei dderbyn ohonynt i ddechrau. Dechreuodd y ddeialog ynghylch

diweddaru gweithdrefnau derbyn gwastraff a chynlluniau samplu ar safleoedd Caerdydd gyda thîm Rheoli Diwydiant Canol De Cymru CNC sawl mis yn ôl.

Er mwyn helpu i baratoi'r cynnig, contractiodd RML eu hymgynghorydd i ymchwilio i fewnbwn gwastraff blaenorol i'r safle tirlenwi i benderfynu a ddylid eithrio unrhyw ffrydiau gwastraff yn y dyfodol. Efallai y bydd angen ymholiadau pellach ynghylch ffrydiau gwastraff, ac felly ni ellir rhannu mwy o fanylion ar hyn o bryd.

Mae'r cynnig y mae RML wedi'i wneud yn cynnwys gwell profion ar safleoedd Caerdydd a chraffu ychwanegol yn Withyhedge. Yr ardaloedd hyn fydd y ffocws rheoliadol allweddol i CNC yn y ddau leoliad yn ne Cymru yng nghamau cynnar ailddechrau gweithgareddau gwaredu gwastraff.

I grynhoi, cynigiwyd gwelliannau seilwaith a gweithdrefnau wedi'u diweddaru gan RML fel mecanwaith i leihau'n sylweddol y tebygolrwydd o ailadrodd y sefyllfa a'r effaith a achoswyd i drigolion sy'n byw ger Safle Tirlenwi Withyhedge yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Rheoli safle wrth dderbyn gwastraff

Mae cynllun cam wrth gam ar gyfer gweithgareddau gwaredu gwastraff o fewn Cell 9 wedi'i baratoi gan RML a'i rannu â CNC. Mae'r cynllun gwastraff yn rhoi manylion sut y bydd gwastraff yn cael ei waredu yn y gell er mwyn sicrhau y gellir capio a gosod seilwaith casglu nwy tirlenwi cyn gynted â phosibl.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut y bydd capio dros dro yn cael ei osod gam wrth gam i sicrhau bod mannau gwastraff agored yn cael eu cadw mor isel â phosibl. Pan fydd uchder gwastraff terfynol yn cael ei gyflawni, bydd capio parhaol yn cael ei osod.

Mae'r seilwaith tynnu nwy tirlenwi a nodwyd ar gyfer Cell 9 yn cynnwys ffynhonnau nwy confensiynol (pibellau fertigol mawr sy'n ymestyn yn ddwfn i'r màs gwastraff), yn ogystal â phin aberthol a ffynhonnau llorweddol. Bydd y rhain yn cael eu gosod fesul cam wrth i eitemau gwastraff gael eu dyddodi yng Nghell 9.

Mae RML wedi datgan y bydd y nwy tirlenwi a gynhyrchir o Gell 9 yn cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod y cyfaint a'r cyfansoddiad yn unol â'r disgwyl. Mae'r cwmni hefyd yn bwriadu cynnal arolygon rheolaidd i nodi unrhyw allyriadau sy'n ffoi o Gell 9.

Trafodwyd gweithdrefnau wrth gefn hefyd, os yw Cell 9 yn cynhyrchu allyriadau sy'n debygol o achosi arogleuon llygrol oddi ar y safle. Mae RML wedi ymrwymo i gynnal pentwr o ddeunydd i ganiatáu capio cyflym ar Gell 9 os oes angen.

## Arogl

Mae safleoedd tirlenwi yn ddynamig ac mae ganddynt y potensial i ryddhau arogleuon yn achlysurol, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu rheoli'n dda gyda systemau rheoli priodol ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd dwyster ac amlder arogleuon o Safle Tirlenwi Withyhedge a brofwyd oddi ar y safle rhwng Hydref 2023 a Gorffennaf 2024 yn llawer uwch na'r disgwyl. Yn ystod y misoedd diwethaf mae nifer y cwynion am aroglau a dderbyniwyd gan CNC wedi gostwng yn sylweddol; derbyniwyd 23 adroddiad ym mis Hydref a phedwar ym mis Tachwedd 2024. Mae rhai o'r rhain wedi cael eu hystyried yn ddi-sail gan fod cyfeiriad y gwynt neu'r disgrifiad o’r arogleuon yn anghyson â safle tirlenwi fel ffynhonnell.

Cyn mis Hydref 2023, roedd CNC fel arfer yn derbyn nifer isel o gwynion (un neu ddau y mis). Cydnabyddir bod cyfartaleddau misol wrth symud ymlaen yn debygol o fod yn uwch na hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y byddai adroddiadau achlysurol o fewn disgwyliadau arferol a bydd CNC yn ymateb i'r rhain fel y bo'n briodol, yn dibynnu ar fanylion yr adroddiadau a dderbynir.

Achos yr arogleuon oddi ar y safle rhwng Hydref 2023 a Gorffennaf 2024 oedd nwy tirlenwi. Yn aml, cafodd hyn ei gydnabod a'i adnabod o'i arogl, tebyg i nwy neu wyau - gyda’r olaf yn cael ei achosi gan hydrogen sylffid, elfen hybrin o nwy tirlenwi.

Gall unrhyw arogleuon o'r safle tirlenwi yn y dyfodol fod yn debyg i nwy neu wyau - neu gallent fod yn debyg i finiau, neu arogl sbwriel o wastraff ffres yn cyrraedd ac yn cael ei drin ar y safle. Gall gwahaniaethu rhwng y mathau hyn o arogleuon helpu CNC i nodi ffynhonnell y broblem ac achosion posibl.

Mae'n bwysig nodi bod ffynonellau eraill o arogleuon yn y cyffiniau hefyd. Ac mae rhai o'r arogleuon hynny yn arogli fel y rhai sy'n gallu tarddu o'r safle tirlenwi.

### Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n arogli'r safle tirlenwi eto?

Os ydych chi'n arogli arogl cryf y credwch ei fod yn dod o Safle Tirlenwi Withyhedge, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib. Nodwch ddisgrifiad o'r arogl, ei gryfder (gwan, cryf, cryf iawn), pryd a ble y sylwyd arno, a pha mor hir yr oedd yn bresennol.

Mae adrodd ar arogleuon yn parhau i’n helpu ni, yn CNC, i greu darlun o pryd a ble y mae arogleuon yn gyffredin yn y gymuned. Maent yn llywio ymateb CNC a gellir eu croesgyfeirio â data a gweithgareddau meteorolegol lleol yn y safle tirlenwi.

Rhowch wybod am arogl trwy ein ffurflen bwrpasol neu drwy ffonio 0300 065 3000.

Os ydych chi'n poeni am effeithiau ar eich iechyd, dylech chi:

- gael cyngor gweithiwr meddygol proffesiynol e.e. meddyg teulu; neu
- Cysylltu â Galw Iechyd Cymru ar 111 neu yn http://111.wales.nhs.uk/

## Pam fod y ddogfen hon yn parhau i gyfeirio at 'leihau' arogleuon - pam na all CNC sicrhau nad oes arogl o'r safle tirlenwi o gwbl?

Mae'n rhaid i CNC, fel y rheoleiddiwr amgylcheddol yng Nghymru, weithio o fewn fframweithiau cyfreithiol penodol i sicrhau bod ein gweithredoedd yn gadarn os cânt eu herio.

Mae asesu cydymffurfiaeth mewn cyfleuster a reoleiddir (safle gyda thrwydded) yn gofyn am gymharu gweithgareddau'r gweithredwr yn erbyn geiriad penodol mewn amodau trwyddedau a dogfennau ategol. O fewn y Drwydded Amgylcheddol ar gyfer Safle Tirlenwi Withyhedge, mae amod trwydded 3.3.1 yn ymwneud ag arogl. Mae'n dweud:

*“Rhaid i allyriadau o’r gweithgareddau fod yn rhydd rhag arogl ar lefelau sy’n debygol o achosi llygredd y tu allan i’r safle, fel y’i canfyddir gan swyddog awdurdodedig yr Asiantaeth, oni bai bod y gweithredwr wedi defnyddio mesurau priodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rhai a nodir mewn unrhyw gynllun a gymeradwywyd i reoli arogl, i atal neu, os nad yw hynny’n ymarferol, i leihau’r arogl gymaint ag y bo modd”*

Geiriad yr amod trwydded arogl hwn yw'r geiriad safonol a geir ym mhob safle tirlenwi gweithredol, bron, yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r amod yn cydnabod efallai na fydd hi'n ymarferol atal pob allyriant a allai achosi arogl, ac mewn achos o’r fath, rhaid eu 'lleihau' hyd yr eithaf. Rhaid i'r gweithredwr gymryd pob mesur priodol i atal neu leihau allyriadau a bydd CNC yn cynnal gwiriadau i sicrhau hyn.

Gall 'mesurau priodol' fod yn helaeth a gallant fod yn gysylltiedig â rheoli gwaredu gwastraff, er enghraifft defnyddio gorchudd addas dros wastraff sydd newydd ei ddyddodi, neu gasglu nwy tirlenwi mewn ffordd addas a digonol. Gall sefydlu a yw'r mesurau priodol wedi'u rhoi ar waith neu eu dilyn fod yn gymhleth.

Os yw'r gweithredwr yn defnyddio'r holl fesurau priodol i atal neu leihau allyriadau a allai achosi arogleuon oddi ar y safle, efallai na fydd yr amodau wedi’u torri, hyd yn oed os yw arogleuon oddi ar y safle yn bresennol.

Ar ben hynny, er mwyn i'r gweithredwr fod yn euog o beidio â chydymffurfio ag amodau’r drwydded, rhaid i arogleuon oddi ar y safle, neu'r potensial ar gyfer arogleuon oddi ar y safle (o allyriadau), fod yn, neu'n debygol o fod, yn rhai sy’n llygru. Mae'r asesiad hwn yn cael ei gynnal gan swyddogion awdurdodedig a hyfforddedig CNC. Yn unol â

chanllawiau asesu aroglau, efallai na fydd arogleuon gwan a/neu fyrhoedlog yn cael eu hystyried yn debygol o fod yn rhai sy’n llygru.

## Ansawdd Aer

### Beth sy'n digwydd gyda monitro ansawdd aer ar hyn o bryd?

Yn gynnar yn 2024 ffurfiwyd Grŵp Ansawdd Aer gyda chynrychiolwyr o Gyngor Sir Penfro (Cadeirydd), CNC , Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a chyda Geotechnology (ymgynghorydd RML) fel aelod sefydlog. Mae'r Grŵp Ansawdd Aer yn adrodd i'r IMG ar agweddau ar fonitro ansawdd aer ac adolygu a dadansoddi data mewn perthynas â safle tirlenwi Withyhedge.

Ers mis Gorffennaf 2024 mae monitor statig sy'n cofnodi hydrogen sylffid a data meteorolegol wedi bod ar waith yn Ysgol Spittal. Mae'r offer, a’r gwaith monitro ac asesu data yn cael ei gynnal gan drydydd parti annibynnol, sef Ricardo Ltd, a gomisiynwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro a CNC.

Yn ystod y misoedd diwethaf tra bod gweithgareddau gwaredu gwastraff yn y safle tirlenwi wedi'u hatal yn wirfoddol, ac mewn ymateb i leihad yn y cwynion am arogleuon, dyma'r prif ddull o fonitro ansawdd aer a gynhaliwyd gan, neu ar ran, aelodau’r IMG.

Yn ddiweddar mae rhwydwaith o fonitorau ansawdd aer wedi'i osod o amgylch ffin tirlenwi gan RML. Bydd y data hwn yn cael ei rannu gyda'r Grŵp Ansawdd Aer a'i ymgorffori mewn dadansoddiad parhaus fel y bo'n briodol.

### Pa mor hir fydd y monitor yn aros yn Ysgol Spittal?

Disgwylir i'r monitor hwn aros yn ei le am chwe mis, gan gwmpasu tymor y gaeaf sydd i ddod (tan ddiwedd mis Rhagfyr), ac mae ymestyn y cyfnod hyd nes y bydd y safle yn ailagor ar gyfer derbyn gwastraff yn cael ei ystyried a’i adolygu ar hyn o bryd gan ddisgwyl penderfyniad yr IMG, Cyngor Sir Penfro a CNC.

### A fydd mwy o fonitro pan fydd gwaredu gwastraff yn dechrau eto?

Bydd y monitor statig yn aros yn ei le i gasglu data ar ôl i weithgareddau gwaredu gwastraff ailddechrau. Mantais y monitro hyd yma yw bod llinell sylfaen wedi'i sefydlu y gallwn ei defnyddio i gymharu ansawdd aer ar ôl newid gweithgareddau yn y safle tirlenwi.

Dewiswyd Ysgol Spittal fel lleoliad ar gyfer y monitor statig am sawl rheswm. Mae'r rhain yn cynnwys rhai ymarferol, er enghraifft hygyrchedd a chyflenwad pŵer awyr agored.

Fodd bynnag, yn fwy sylfaenol mae Spittal wedi'i leoli i gyfeiriad cyffredinol y gwynt o Safle Tirlenwi Withyhedge, a dyma'r lleoliad y derbyniodd CNC y nifer uchaf o adroddiadau arogleuon ohono.

Mae gan CNC offer symudol (Monitors Jermone) sy'n gallu cofnodi hydrogen sylffid ad hoc i gefnogi asesiadau arogleuon neu gofnodi cyfartaledd dros 30 munud os canfyddir aroglau nwy tirlenwi oddi ar y safle. Mae hefyd yn bosibl defnyddio'r monitorau Jermone hyn mewn lleoliad statig am gyfnod byr, er enghraifft rhwng diwrnod ac wythnos. Bydd CNC yn defnyddio'r monitorau hyn yn y ddwy sefyllfa ar ôl i weithgareddau gwaredu gwastraff ailddechrau.

Y bwriad yw defnyddio peiriannau Jermone yn ychwanegol at y data sy'n cael ei gasglu gan y monitor statig yn Ysgol Spittal.

## Pam fod y safle tirlenwi yn cael dechrau gwaredu gwastraff eto pan fu toriadau diweddar o ran rheoliadau Ansawdd Aer yn Ysgol Spittal?

Prif rôl CNC fel rheoleiddiwr amgylcheddol yw cymryd camau i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl. Yn gynnar yn 2024, cyhoeddodd CNC Hysbysiadau Gorfodi EPR i RML i ymgymryd â gwaith peirianneg brys a phenodol i leihau ffynhonnell ac achos arogleuon oddi ar y safle.

Cwblhawyd yr holl waith oedd ei angen o dan yr Hysbysiadau a gyflwynwyd gan CNC. Yn ogystal, dewisodd RML wneud buddsoddiadau pellach yn y system rheoli nwy tirlenwi, gan wella ei wytnwch a'i ddibynadwyedd.

Mae nifer yr adroddiadau arogleuon a dderbyniwyd ers Awst 2024 - sy’n disgyn - yn dangos bod y risg o Safle Tirlenwi Withyhedge wedi lleihau. Mae rhai adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y misoedd diwethaf yn rhai nad ydynt wedi'u priodoli i'r safle tirlenwi - a hynny yn seiliedig ar gyfeiriad y gwynt neu ddisgrifiad yr arogl.

Mae gwelliannau yn y safle tirlenwi wedi cael eu gyrru gan CNC i leihau'r tebygolrwydd o allyriadau sy'n arwain at arogleuon oddi ar y safle. Fodd bynnag, bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos wrth i weithgareddau gwaredu gwastraff ailddechrau.

Mae'r monitor statig yn Ysgol Spittal wedi bod ar waith ers mis Gorffennaf 2024, ar ôl i RML atal gweithgareddau gwaredu gwastraff yn wirfoddol. Ers yr adeg hwn mae achlysuron wedi bod pan mae trothwy gwerth canllaw annifyrrwch arogl Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer hydrogen sylffid wedi cael ei groesi.

Fel rhan o'r gwaith monitro a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Penfro a CNC, cynhyrchwyd Trosolwg Rhagarweiniol o ddata wedi'i ddilysu o'r tri mis cyntaf o fonitro gan Ricardo.

Mae'r trosolwg hwn yn dangos, yn ystod y tri mis, y rhagorwyd ar werth canllaw annifyrrwch arogl WHO ar naw achlysur dros bedwar dyddiad gwahanol. Roedd hyn yn cyfateb i 0.1% o'r cyfnod monitro. Fodd bynnag, cydnabyddir gan yr IMG mai dim ond mewn un lleoliad y mae'r monitor statig yn cofnodi arogleuon.

Mae'r trosolwg hefyd yn dangos, ar bedwar o'r naw achlysur pan oedd y lefel yn fwy na'r gwerth canllaw, nad oedd cyfeiriad cyfartalog y gwynt yn dod, yn gyffredinol, o gyfeiriad y safle tirlenwi. Mae Ricardo wedi priodoli hyn i ffynonellau posibl eraill o hydrogen sylffid yn yr ardal o amgylch Spittal.

Mae CNC a Cyngor Sir Penfro wedi nodi o'r blaen bod ffynonellau aroglau eraill yn bodoli yn y cymunedau o amgylch y safle tirlenwi. Mae'r Trosolwg Rhagarweiniol yn ategu hyn, yn ogystal â nodi y gallai'r ffynonellau hyn hefyd fod yn cyfrannu at y sylffid hydrogen a gofnodwyd yn y monitor statig.

I grynhoi, ni ellir cysylltu pob un o’r achosion o groesi trothwyon o ran ansawdd aer ym mis Medi 2024 â'r safle tirlenwi. Ar y pedwar dyddiad pan gofnodwyd gormodeddau, derbyniodd CNC un gŵyn am arogl. Efallai bod arogleuon wedi cael eu canfod yn yr ardal ond bod pobl wedi meddwl eu bod o ffynonellau eraill ac felly heb eu hadrodd i CNC. Mae hyn hefyd yn dangos bod y risg o'r safle tirlenwi wedi lleihau.

## Gweithredu yn y dyfodol gan aelodau’r IMG

### Beth fydd CNC yn ei wneud unwaith y bydd y safle tirlenwi yn ailgychwyn gwaredu gwastraff?

Yn ystod yr wythnosau cychwynnol yn dilyn ailgychwyn gweithgareddau gwaredu gwastraff yn Safle Tirlenwi Withyhedge bydd gan CNC bresenoldeb gweithredol yn y safle tirlenwi. Bydd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithdrefnau derbyn gwastraff yn cael eu dilyn a bod gweithgareddau gwaredu yn cael eu rheoli'n briodol.

Ar yr un pryd, bydd gan aelodau o dîm Rheoli Diwydiant Canol De Cymru CNC bresenoldeb gweithredol yn y safleoedd yng Nghaerdydd lle bydd gwastraff yn cael ei anfon i Withyhedge.

Yn Withyhedge Landfill, bydd gwiriadau hefyd yn cael eu gwneud ar y systemau rheoli nwy tirlenwi a rheoli trwytholch presennol. Bydd arolygon o allyriadau sy’n ffoi yn digwydd ar draws y safle, a bydd asesiadau arogleuon rheolaidd oddi ar y safle yn cael eu cynnal.  Bydd asesiadau arogleuon yn cael eu llywio gan gwynion am arogleuon a bydd offer sylffid hydrogen symudol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r arolygon hyn.

Bydd monitorau Jerome hefyd yn debygol o gael eu rhoi mewn lleoliadau sefydlog i gofnodi data am rhwng 24 awr ac ychydig ddyddiau gyda'r lleoliadau yn cael eu pennu gan gyfeiriad y gwynt a ragwelir.

## Beth fydd blaenoriaethau Cyngor Sir Penfro yn ystod y cyfnod hwn?

Cyn i safle tirlenwi Withyhedge ailgychwyn ei drefn derbyn gwastraff mae Cyngor Sir Penfro am sicrhau trigolion y bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o CNC. Byddwn yn cynnal cyfres o ymweliadau ar y cyd a monitro arogleuon yn ogystal â gwirio gwastraff a ddygir i'r safle.

Mae Cyngor Sir Penfro hefyd am gynghori preswylwyr y bydd swyddogion yn ymateb i gwynion arogleuon ar fyrder a byddent yn annog pobl sy'n cael eu heffeithio yn eu cartrefi i ffonio Cyngor Sir Penfro cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu i swyddogion ymweld ac asesu lefel yr effaith mor agos at yr amser â phosibl.

Mae'r cyngor yn gobeithio na fydd hyn yn angenrheidiol oherwydd gwelliannau ar y safle ond mae am fonitro'n barhaus yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys monitor sylffid hydrogen parhaus yn Ysgol Spittal.

## Beth fydd cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru?

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i eirioli dros welliannau i'r safle er mwyn lleihau unrhyw effaith ar y gymuned leol. Nid oes gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrifoldebau rheoleiddiol na phwerau ynghylch rheoli safle na'r gallu i fonitro'r amgylchedd.

Byddwn yn parhau i gynnig arweiniad iechyd cyhoeddus i bobl sy'n byw ger safle Withyhedge. Mae holl asesiadau risg iechyd ICC a chyngor iechyd cyhoeddus cysylltiedig ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan:

CY: https://icc.gig.cymru/pynciau/asesiadau-risg-iechyd-withyhedge/

EN: https://phw.nhs.wales/topics/withyhedge-health-risk-assessments/

## Pa rôl fydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ei chwarae yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf?

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parhau i ddarparu gwasanaethau i unrhyw un yn y gymuned leol sydd â phryderon neu broblemau iechyd.

## Sut bydd y cyhoedd yn clywed am yr hyn sy'n digwydd?

Mae adborth a ddarparwyd yn flaenorol wedi'i ystyried a bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu gan yr IMG pan fydd gwybodaeth newydd i'w throsglwyddo i gymunedau. Cydnabyddir y gall diweddariadau gydag ychydig iawn o wybodaeth newydd fod yn ddiwerth, braidd.

Mae RML wedi bod yn rhannu gwybodaeth ar eu gwefan ac wedi dweud eu bod yn bwriadu cynyddu eu cyfathrebu uniongyrchol â chymunedau lleol yn fuan.